OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 704 (Cy. 158)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llangurig, Powys i Fallwyd, Gwynedd) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2020

Gwnaed	*7 Gorffennaf 2020*
Yn dod i rym	*10 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llangurig, Powys i Fallwyd, Gwynedd) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2020 a daw i rym ar 10 Gorffennaf 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 10 Gorffennaf 2020 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw cefnffordd yr A470 y Drenewydd i Aberystwyth/Caersws i Fachynlleth/Glantwymyn i Fallwyd sy'n ymestyn o'i chyffordd gylchfan â'r A44 yn Llangurig, Powys hyd at ei chyffordd gylchfan â'r A458 ym Mallwyd, Gwynedd;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei

---

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwyso

7.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Gorffennaf 2020

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru